**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

7 Mawrth 2016

Annwyl Darren

Rwy'n ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y diweddaraf am adolygiad y Pwyllgor o Gronfa Gwyddorau Bywyd Cymru.

Dyma drydedd flwyddyn y Gronfa o'i chyfnod gweithredu o 10 mlynedd. Er gwaetha'r ffaith bod yr adolygiad dwy flynedd a hanner wedi bod yn faen tramgwydd ar ymdrechion Rheolwyr y Gronfa i godi arian, mae'r Gronfa eisoes wedi gwneud 11 o fuddsoddiadau mewn naw busnes. O'r rheini, mae chwech yn fewnfuddsoddwyr newydd i Gymru, mae dau yn fusnesau brodorol ac mae un yn fusnes newydd sydd wedi'i gydsefydlu yng Nghymru.

Hyd yma, mae'r Gronfa wedi sbarduno buddsoddi £200 miliwn a rhagwelir y bydd y buddsoddiadau hyn yn cyfrannu at greu bron 500 o swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru dros oes y Gronfa.

Mae'r Gronfa eisoes wedi helpu i roi hwb i enw da sector Gwyddorau Bywyd Cymru trwy'r byd. Mae hi wedi ennyn sylw adeiladol helaeth gan y diwydiant a'r cyfryngau gan roi Cymru ar fap Gwyddorau Bywyd y byd a chreu penawdau cenedlaethol a rhyngwladol yn sgil buddsoddiadau megis y rheini i helpu Proton Partners International Ltd i sefydlu Canolfan Therapi Pelydr Proton gynta'r DU yng Nghasnewydd; a phenderfyniad ReNeuron plc, busnes bôn-gelloedd cyfnod clinigol blaenllaw i symud ei ffatri Meddyginiaethau Therapi Uwch fodern i Ben-coed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwta wythnos yn ôl, cyhoeddon ni fod ReNeuron am gymryd llawr cyntaf cyntaf Therapia ym Mharc Busnes Pen-coed, 25,000 tr sg ohono. Daw hwn yn gyfleuster blaenllaw gyda labordai ymchwil a datblygu, stafelloedd glân i awto-feithrin celloedd, a swyddfeydd fydd yn gartref ger yr M4 i'r cwmni hwn sydd ar restr AIM.

Mae ReNeuron yn symud ei staff ac yn gobeithio creu 70 o swyddi newydd sy'n gofyn am y sgiliau gorau. Mae'r safle newydd hwn dair gwaith yn fwy na'i gartref presennol yn Guildford.

Gyda'r adolygiad bellach wedi'i gynnal, y gobaith nawr yw y cawn ailgydio yn y gwaith o godi arian a chynnal momentwm cynnar y Gronfa er mwyn denu rhagor o gwmnïau o safon byd i Gymru.

Mae natur arloesol y Gronfa yn golygu ein bod yn gweithio mewn ffordd newydd fel rhan o strategaeth y sector gwyddorau bywyd ehangach yng Nghymru.

Mae Deloitte wedi cyhoeddi mai Cymru yw'r rhanbarth sy'n perfformio drydydd orau yn y DU o ran buddsoddi mewn Gwyddorau Bywyd ac wythnos ddiwetha, roedd mwy na 600 o gynrychiolwyr y diwydiant wedi cofrestru ar gyfer y Bio Cymru mwyaf erioed. Yn y cyfamser, mae ein Hyb Gwyddorau Bywyd ym Mae Caerdydd yn parhau i fynd o nerth i nerth, mae'n ffocws gweledol i'r sector yng Nghymru ac yn gonglfaen ar gyfer helpu'r sector i dyfu, i wneud y mwyaf o bob cyfle, i ddenu buddsoddwyr, i fasnacholi ymchwil, i helpu busnesau ac i greu swyddi.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd fod arweinyddiaeth Cyllid Cymru yn newid.

Mae Cyllid Cymru wedi cyhoeddi penodiad Giles Thorley'n Brif Weithredwr newydd ar Grŵp Cyllid Cymru. Ar ôl gyrfa o ugain mlynedd ym myd busnes, mae gan Mr Thorley brofiad helaeth fel uwch-reolwr ac o reoli cronfeydd buddsoddi ecwiti preifat a bu hefyd yn angel busnes llwyddiannus. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ar 4 Ebrill.

Mae penodiad Mr Thorley'n dilyn penodiad Gareth Bullock fel Cadeirydd newydd Grŵp Cyllid Cymru ar 1 Hydref 2015. Mae gan Mr Bullock hefyd gyfoeth o brofiad ar ôl gyrfa lwyddiannus a chlodwiw o 30 mlynedd yn y byd bancio rhyngwladol.

Edwina Hart